

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Nos Fercher, Ionawr 28: Cynhelir Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 25: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, ac yna gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Ionawr 23: CIC rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 25: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 25: Dim oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ionawr 22: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Chwefror 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Chwefror 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Chwefror 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Sul, Ionawr 25: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 19: Cynhelir y 'Te Bach' yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 23: Cynhelir 'Dwylo Pysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 25: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Ionawr 23: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
DIM OEDFA NOS

Chwefror 1


10.00 a.m. - Andrew Settattree
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Andrew Settattree

Chwefror 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Chwefror 15

10.00 a.m. - Y Parchg W R Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg M Williams



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 621 Dydd Sul, 18 Ionawr, 2015

Goddef y cyfan

Ers blynyddoedd, yn arbennig yng ngwledydd Prydain, bu llawer o bobl yn ymosod ar y Ffydd Gristnogol ond yn betrusgar rhag ymosod yn yr un modd ar grefydd Islam. Un rheswm am hyn yw'r ofn y gallai beirniadaeth o'r fath beri i rywrai fynd ati i ddial ar bwy bynnag a fyddai'n ymosod ar grefydd Islam a'i phroffwyd. Bu pobl yn fwy na pharod i wawdio Iesu Grist a'r cyfan sy'n ganolog i Gristnogaeth, ond yn ymarhous i anelu'r un gwawd at Islam a Mohammed (er gwaetha'r ffaith na fyddai mwyafrif dilynwyr y grefydd honno'n ystyried codi bys yn erbyn y beirniaid).

Dangosodd yr ymosodiadau ar staff *Charlie Hebdo* yn Ffrainc bod sail i'r ofn hwnnw gan fod y ddau lofrudd wedi mynnu eu bod yn dial am y cam a wnaed â'r proffwyd. Fe heriodd y cylchgrawn y bygythiadau, a thalwyd yn ddud iawn am hynny. Ac wythnos wedi'r gyflafan, mae rhifyn diweddaraf *Charlie Hebdo* yn ein hatgoffa bod Cristnogaeth a phob ffydd arall yn parhau'n wrthrych gwawd a dychan i'w staff wrth iddynt ymosod ar y Pab a chrefyddwyr eraill a oedd wedi datgan cefnogaeth ac estyn eu cydymdeimlad iddynt yn ystod yr wythnos.

Beth bynnag a ddigwydd yn Ffrainc a gwledydd eraill, mae'n debyg na welwn newid agwedd yng ngwledydd Prydain yn fuan. Bydd Cristnogaeth yn dal yn darged hawdd, a bydd pobl yn dal i feddwl ddwywaith cyn ymosod ar Islam. Un rheswm am hynny yw'r

ffraith y bydd pobl yn dal i gredu nad oes fawr o berygl y bydd Cristnogion yn ymateb yn dreisgar i'r gwawd.

Ond a yw hynny'n awgrymu nad yw Cristnogion yn malio dim am y gwawd hwn? Ai arwydd o'n dihidrwydd yw hyn, neu brawf nad yw o bwys gennym beth a ddywed eraill am ein Ffydd a'n Gwaredwr? Tristwch pethau yw y gall fod peth gwir yn hynny. Wedi'r cwbl, oni chlywir rhai sy'n arddel y Ffydd yn cablu trwy ddefnyddio enw Iesu'n llac ac anystyriol?

Mae Cristnogion yn tueddu i dderbyn y sarhad hwn, ac mae'r dychanwyr yn deall hynny. Ond nid dihidrwydd sy'n gyfrifol am hyn, ond yn hytrach alwad Duw iddynt i fod yn debyg i Iesu Grist, a ddiodefodd bopeth, yn cynnwys yr ing a'r boen a'r angau ar Galfaria er eu mwyn, heb daro'n ôl.

Mae rheswm arall hefyd, sef yr alwad i adael pob dial i Dduw ei hun. Mae'r cabledd a'r dirmyg yn loes i'r Cristion, ond mae'r Cristion hefyd yn gwybod bod rhaid gadael pob dial i Dduw. Ni chaiff y rhai sy'n dirmygu'r Ffydd ac yn sarhau Crist chwerthin am byth. Daw'r dydd y bydd yr Arglwydd, sy'n eiddigedus o'i enw da ei hun, yn dial ar y rhai sy'n ei ddirmygu ef a'i fab a'i ddilynwyr. Yr alwad a gawsom fel Cristnogion yw goddef y cyfan, troi'r foch arall, a hyd yn oed weddïo dros y rhai sy'n ein gwrthwynebu: gweddïo drostynt a'u caru, er gwaetha popeth a wnânt i ni ac yn erbyn y Ffydd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Ifor Glyn Efans, Capel Curig ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Pryderi Llwyd Jones, Cricieth.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dewi Morris, Porthmadog.

Byddaf fi'n arwain yr Oedfa Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch. .

Croeso i'r rhai sy'n arwain yr oedfaon a diolch iddynt am eu gwasanaeth.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhaliwyd Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch nos Fercher diwethaf dan lywyddiaeth Miss Marian Jones.

Trafodwyd materion ariannol yr Ofalaeth newydd. Mae cryn waith i'w wneud er mwyn aildrefnu pethau a gosod trefn ar gyfraniadau'r eglwysi at yr Ofalaeth. Diolch am yr holl waith a wnaed hyd yma.

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch nos Fawrth ddiwethaf.

Un o rieni'r Ysgol Sul, Manon Lloyd Williams, oedd y wraig wâdd y tro hwn. Wrth drafod 'Diogelwch yn y Cartref' soniodd Manon am ei gwaith bob dydd gydag Adran Safonau Masnach Cyngor Gwynedd. Cawsom ganddi gynghorion gwerthfawr ynghylch amddiffyn ein hunain rhag pob math o dwyll. Soniodd am waith Safonau Masnach i amddiffyn pobl rhag twyll trwy'r We, post sothach, galwadau ffôn a phobl sy'n dod i'r drws i geisio gwerthu nwyddau neu wasanaeth.

Cafwyd cyfle i godi cwestiwn ac i drafod a rhannu profiad. Diolchwyd i Manon gan Mrs Mattie Hughes. Diolch hefyd i'r rhai a baratodd y baned ar y diwedd.

MOLI

Cafwyd cyfle i drafod oedfa MOLI yn Capel Coch ar ôl oedfa MOLI nos Sul diwethaf. Roedd yn gyfle da i drafod a rhannu syniadau. Diolch i bawb am gyfrannu at y drafodaeth. Gobeithiwn y medrwn weithredu rhai o'r pethau y buom yn meddwl amdany'n nhw efo'n gilydd.

Oedfa Deulu

Cofiwch mai Oedfa Deulu fydd gennym yn Capel Coch **am 10.30 o'r gloch** fore Sul nesaf, Ionawr 25.

Te Bach

Bnawn Llun, Ionawr 19, bydd y Te Bach yn festri Carmel, Llanllechid rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ionawr 28. Bydd Mr Cynrig Hughes. Peniel, Pentir yn trosglwyddo'r gadeiryddiaeth i'r Parchg Gareth Edwards, Capel Coffa cyn i'r Cadeirydd newydd draddodi ei anerchiad.

Cynhelir Cyfarfod o Bwyllgor Bugeiliol y Cyfarfod Chwarter ym Methlehem, Talybont fore yfory gyda'r Parchg Casi Jones, Clynnog, Swyddog Cynnal ac Adnoddau newydd yr Annibynwyr yng Ngogledd Cymru.

Gronyn

Byddaf yn falch o dderbyn unrhyw bwt o newyddion neu gyhoeddiad ar gyfer *Gronyn* erbyn nos Iau bob wythnos.

Bydd hynny'n help mawr wrth ei baratoi bob wythnos.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch nos Wener yr wythnos hon, Ionawr 23.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Ionawr 23.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.

Dosbarth Beiblaidd

Bydd y Dosbarth Beiblaidd a gynhelir yn Yr Haciau, Penisarwaun yn ail ddechrau nos Fercher, Chwefror 4.

Gwefan Gronyn

Cofiwch eto am wefan yr Ofalaeth, sy'n sôn am ein hamrywiol weithgareddau.

Fe welir cyfeiriadau'r Ofalaeth yn y blwch ar y dudalen gyferbyn:

gronyn.wordpress.com
neu
gronyn.org

Caiff *Gronyn* ei osod ar y wefan bob wythnos, ac felly os na fyddwch wedi cael copi ohono gallwch ei ddarllen yno. Bydd wedi ei osod ar y wefan erbyn nos Sul, neu nos Lun fan bellaf.

O dipyn i beth mae'r wefan yn tyfu i gynnwys manylion am eglwysi Carmel a Bethlehem, a gofynnir yn naturiol am eich amynedd tra bydd hyn yn digwydd.

Llanw

Eleni am y tro cyntaf cynhelir Gŵyl Llanw yn y Gogledd, yng Nghricieth yn ystod yr wythnos wedi'r Pasg (Ebrill 6-10). Daw rhagor o fanylion yn fuan.